

CWESTIYNAU ALLWEDDOL AC ATEBION

David Burtenshaw

ADRAN B: YMHOLIAD YMCHWIL UNIGOL

CYFLWYNIAD I ADRAN B

Mae'r adran hon o'r arholiad yn rhoi cyfle i chi wneud gwaith mewn maes sydd o ddiddordeb i chi fel unigolyn. Mae'n waith sy'n cael ei ysbrydoli a'i arwain gan eich athro/athrawes ond sy'n caniatáu i chi arddangos eich bod yn gallu ymchwilio i bwnc penodol, un ai yn y maes neu drwy ymchwil desg-seiliedig yn y llyfrgell neu ar y we.

Mae gennych y cyfle i ddewis un o **10 Thema** a restrir yn Nhabl 1, a bydd gan bob un **Faes Pwnc** ar gyfer y flwyddyn y byddwch yn sefyll eich arholiadau A2 (bydd maes y pwnc yr un fath ar gyfer mis Ionawr a mis Mehefin). Does dim ond angen i chi ymchwilio i **UN maes pwnc**. Byddwch yn cael eich arholi ar y maes pwnc y bu i chi ymchwilio iddo.

THEMA	MAES PWNC 2010	Meysydd pwnc eraill (enghreifftiau)
Daearyddiaeth Troseddau	Dosbarthiad troseddau	Troseddau yn ystod y dydd a'r nos
Amddifadedd	Amddifadedd mewn ardaloedd gwledig	Dangosyddion amddifadedd
Daearyddiaeth Afiechydon	Lledaeniad un afiechyd dynol	Dŵr ac Afiechyd
Seicoleg Amgylcheddol	Ardaloedd preswyl o ddewis	Canfyddiadau plant o ofod
Hamdden ac Adloniant	Hamdden ac adloniant ac adfywiad trefol	Effaith hamdden ar ardal wledig
Microhinsoddau	Microhinsoddau trefol	Microhinsoddau coetiroi
Llygredd Atmosfferig a Llygredd Dŵr	Llygredd afonol	Llygredd a phellter o ffynhonnell y llygredd
Daearyddiaeth Adwerthu	Newid adwerthu mewn ardaloedd gwledig	Adwerthu ac adfywiad trefol
Afonydd	Gwaddodion afonydd	Nentydd trefol
Ecosystemau ar Raddfa Fechan	Olyniaeth	Natur plagioclimacs

Tabl 1 Themâu a Meysydd Pwnc Enghreifftiol

Rhaid i chi ddewis un maes pwnc a gwneud eich gwaith ymchwil ar deitl o fewn y maes y byddwch chi a'ch athro/athrawes yn cytuno sy'n addas. Mae'n bwysig bod eich ymchwil o safon uchel gan fod y cwestiwn arholiad yn cyfrif am 40 GMU neu 10% o gyfanswm eich marciau Safon Uwch!

Bydd yr arholiad ar ffurf cwestiwn deuran ar eich maes pwnc dewisedig: bydd **Rhan (a)** yn gwestiwn sy'n arholi eich dealltwriaeth o'r dull ymholi (10 marc) a **Rhan (b)** yn arholi agwedd ar eich gwaith ymchwil eich hun (15 marc).

PARATOI AR GYFER ADRAN B

STRWYTHUR Y DASG YMCHWIL UNIGOL

Mae Tabl 2 yn rhoi syniad o'r llinell amser y dylech fod yn gweithio iddi. Bydd llawer yn dibynnu ar ai ar gyfer arholiad mis Ionawr neu arholiad mis Mehefin y bydd yr ysgol wedi rhoi eich enw.

Amserlen	Mynediad mis Ionawr		Mynediad mis Mehefin	Amserlen
Mehefin-Gorffennaf ar ddiwedd yr UG	Bydd yr athro/athrawes yn cyflwyno'r themâu ymchwil ar gyfer y flwyddyn		Bydd yr athro/athrawes yn cyflwyno'r themâu ymchwil ar gyfer y flwyddyn	Mehefin-Gorffennaf ar ddiwedd yr UG
Gorffennaf cyn i'r tymor orffen	Cadarnhau pa bwnc rydych wedi'i ddewis		Cadarnhau pa bwnc rydych wedi'i ddewis	Medi neu Ragfyr
Awst ac/neu Fedi Blwyddyn 13	Gwneud y gwaith ymchwil		Gwneud y gwaith ymchwil	Hydref-Rhagfyr Blwyddyn 13 neu Ionawr-Chwefror Blwyddyn 13
Hydref-Tachwedd Blwyddyn 13	Prosesu'r data, strwythuro'r adroddiad ac ysgrifennu		Prosesu'r data, strwythuro'r adroddiad ac ysgrifennu	Chwefror-Ebrill Blwyddyn 13
Rhagfyr	Cael eich gwaith wedi'i asesu'n fewnol er mwyn sicrhau eich bod yn cael cyfle i ateb cwestiynau amdano		Cael eich gwaith wedi'i asesu'n fewnol er mwyn sicrhau eich bod yn cael cyfle i ateb cwestiynau amdano	Ebrill-Mai
Wythnosau cyntaf Ionawr	Adolygu'ch gwaith ymchwil er mwyn eich galluogi i ateb cwestiynau		Adolygu'ch gwaith ymchwil er mwyn eich galluogi i ateb cwestiynau	Diwedd Mai
Diwedd Ionawr	Sefyll yr arholiad		Sefyll yr arholiad	Dechrau mis Mehefin

Tabl 2 Amserlen yr Ymchwil Unigol

YMCHWIL CYN PENDERFYNU

Mae hwn yn gam allweddol yn eich gwaith. Wrth benderfynu pa faes pwnc yr hoffech ei ymchwilio, gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi'ch hun:

- Beth yw fy niddordebau a pha bynciau A2 eraill allai fod â chyswllt â'r rhestr o themâu ymchwil? Er enghraifft, os ydych yn astudio Seicoleg, gallai Seicoleg Amgylcheddol orgyffwrdd â rhai o'ch astudiaethau. Ar y llaw arall, gallai Daeryddiaeth Troseddau ac Amddifadedd fod o ddiddordeb i Gymdeithasegwyr.
- Gallai myfyrwyr Cemeg gael eu denu gan Lygredd Atmosfferig a Llygredd Dŵr.

- *Pa Thema sydd o ddiddordeb i mi?* Os yw maint eich dosbarth yn fychan, bydd raid i chi ddisgwyl cyfyngiadau ar eich dewisiadau.
- *Ydw i wedi trafod fy thema ddewisol gyda'r athro/athrawes/athrawon ac ydynt yn gallu'i chefnogi?* Bydd rhai adrannau'n cyfyngu ar y dewis o themâu am resymau logistaidd.
- *Oes gen i bwnc ymchwil posibl ar y thema ddewisol?*
- *Ydw i wedi dod o hyd i neu wedi derbyn darllen cefndirol ar y thema?* Dylai hyn gynnwys darllen erthyglau a gwerslyfrau yn ogystal â Gwgl.
- *Oes yna eraill yn y dosbarth yn ymchwilio i bynciau tebyg?* Os oes yna, byddwch yn barod i'r athro/athrawes ddisgwyl i chi wneud peth ymchwil cefndirol a thasgau casglu data fel grŵp.
- *Ydych chi wedi gosod amserlen ar gyfer eich ymchwil?* Ni allwch adael pethau tan y funud olaf. Mae'r amserlen yn dynn. Cofiwch fod ymchwil yn 90% chwys a 10% ysbrydoliaeth!
- *Yn olaf, ydych chi'n deall trefn ymholiad?*

LLWYBR I YMHOLIAD

- 1 Darllenwch ac ymchwiliwch i'r lenyddiaeth.
- 2 Penderfynwch ar bwnc ymchwil sydd un ai'n faes astudiaeth neu'n gwestiwn rydych yn dymuno'i ateb.
- 3 Casglwch yr wybodaeth a'r data o ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd fydd yn eich galluogi i ateb y pwnc ymchwil rydych wedi'i ddewis.
- 4 Bydd angen i chi ddeall beth yn union mae'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu yn ei ddweud am y pwnc rydych yn ei ymchwilio. Pa mor gywir yw'r wybodaeth? Ydy hi'n unochrog? Os felly, pam?
- 5 Trefnwch yr wybodaeth a'r data fel ei fod yn ateb eich amcanion ymchwil.
- 6 Ceisiwch ddod i gasgliadau o'ch canlyniadau y gallwch eu defnyddio yn yr arholiad.
- 7 Gwerthuswch bob cam o'ch ymchwil fel y gallwch ateb cwestiynau am drefn eich ymholiad yn yr arholiad.
- 8 Gwerthuswch eich ymholiad a'ch canlyniadau mewn perthynas â'r hyn ddarllenoch chi ar y dechrau a'r hyn rydych wedi'i ddarganfod. Dylai hyn gynnwys newid y pwnc neu'r cwestiwn ofynnoch chi fel bod eraill yn gallu'i ddeall yn well yn y dyfodol.

CYNLLUNIO, YMCHWIL CEFNDIROL A GOSOD TEITL Y PWNC

Mae pob ymchwil cefndirol da yn golygu darllen o gwmpas y pwnc a gwaith paratoi cadarn.

- Bydd chwilio'r we gyda theitl y maes pwnc yn un man cychwyn ar gyfer y cam yma. Wrth ddefnyddio'r we, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod o ble daeth yr wybodaeth a pha mor ddilys a diduedd yw'r ffynhonnell. Mae gan gwmmiau a mudiadau enw da i'w gynnal, ac efallai y byddant yn strwythuro gwybodaeth i'w gwneud yn fwy ffafriol. Mae gan wefan y Royal Geographical Society ddolen i *Geography Now* sydd ag erthyglau ar 'Putting poverty in its place' – darllen cefndirol delfrydol ar gyfer Amddifadedd, a 'restoring urban rivers' – syniad da posibl ar gyfer yr ymchwilydd Afonydd. Gallai ymchwil trefol ar bynciau mewn amddifadedd, adwerthu, seicoleg amgylcheddol a throseddau wneud defnydd o www.streetview sydd â darn o ffilm fideo o bob stryd mewn trefi dethol yn y DU a thramor. Mae'n eich galluogi i fynd ar deithiau rhith sy'n golygu eich bod yn medru nodi gwybodaeth ac edrych ar ffotograffau ar lefel y stryd. Cafodd Llundain, Abertawe, Caerdydd, Birmingham, Manceinion, Lerpwl, Sheffield, Leeds, Efrog, Newcastle, Bryste, Southampton, Rhydychen, Caergrawnt, Norwich a Nottingham eu cynnwys gan y system yn 2009.
- Darllenwch werslyfr ar y pwnc. Er enghraifft, gallai *Managing Ecosystems*, Adrian Kidd, Hodder & Stoughton 1999 fod yn fan cychwyn ar gyfer Ecosystemau ar raddfa fechan. Mae cyfres y Geographical Association, *Discovering Cities*, yn dparu syniadau ar y themâu Amddifadedd Trefol, Adwerthu a Hamdden mewn trefi fel Bryste, Lerpwl, Manceinion, Portsmouth, Sheffield a Nottingham.

- Edrychwch mewn cylchgronau yn yr adran. Mae'r canlynol yn ffynonellau gwybodaeth defnyddiol:
Geography Review: e.e. erthygl ar *Investigating coastal sand dunes*, sydd â syniadau delfrydol ar gyfer Ecosystemau ar Raddfa Fechan. Mae'r erthygl uchod ar gael yn Gymraeg – 'Archwilio twyni tywod arfordirol' yn *Y Cylchgrawn Daearyddol*, Rhifyn 7 (CAA, 2004, tud. 35).
Topic Eye: mae un gyfrol yng nghyfres 2009-2010 ar *Health and Development*.
The Geographical: e.e. roedd yna erthygl yn rhifyn Chwefror 2009 gan P. Thomas, golygydd *The Ecologist*, o dan y teitl *The Trouble with Travel*, fyddai'n ysbrydoliaeth bosibl ar gyfer ymchwil i hamdden ac adloniant.
Geography Now: (gweler uchod)
- Os yw'ch astudiaeth yn cynnwys gwaith maes, pa offer fydd arnoch ei angen? All y gwaith maes gael ei gwblhau gennych chi ar eich pen eich hun, neu a fydd arnoch angen cymorth gan ffrindiau a chyd-ddisgyblion? Ydych chi'n gwybod sut i ddefnyddio'r offer? Ydy'r ysgol yn caniatáu i chi ddefnyddio'r offer heb oruchwyliaeth staff?
- Os yw'r pwnc yn gofyn am waith maes, dewiswch ac ymwelwch â'r safle ar gyfer eich astudiaeth.
- Paratowch unrhyw daflenni data y bydd arnoch eu hangen i gofnodi eich canfyddiadau. Os ydych am ddefnyddio holiaduron, paratwoch y cwestiynau a chynnal peilot ar eich athro/athrawes a chydweithwyr i ddelio ag unrhyw faterion ynglŷn â chymhwysedd y cwestiynau. Pa fath o samplu fyddwch chi'n ei ddefnyddio? Bydd o ddefnydd i chi wybod am rinweddau ac anfanteision y mathau gwahanol o samplu ar gyfer yr arholiad.
- Beth yw'r peryglon? Dylech asesu'r peryglon posibl, a dylai'r ysgol eich helpu gyda'r agwedd hon. Os yw'r pwnc yn ymwneud ag afonydd neu ecosystemau ar raddfa fechan, efallai y bydd angen i chi wirio'r rhagolygon tywydd, ac os yw'n ymwneud ag astudio afonydd llanw neu forfeydd heli, dylech wirio'r llanw.
- Penderfynwch pryd fyddwch chi'n gwneud y gwaith maes neu pryd fyddwch chi'n treulio amser ar eich gwaith ymchwil.
- Mae'n bwysig trefnu unrhyw ymweliadau.
- Gwnewch y pwnc yn uniongyrchol, a heb fod yn rhy hir neu'n gymhleth. Rhaid iddo fod o fewn eich gallu. Dyma rai teitlau sy'n enghreifftiau o bynciau uniongyrchol:

PWNC posibl	Thema Ymchwil
Oes yna berthynas rhwng swm ac ansawdd y gofod gwyrdd a'r dewis preswyl?	Seicoleg Amgylcheddol
Oes yna berthynas rhwng dwysedd adeiladau a thymheredd mewn ardal drefol?	Microhinsodau
A yw'r ddarpariaeth adwerthu yn amrywio yn ôl maint yr anheddiad gwledig?	Daearyddiaeth Adwerthu
Pa mor bwysig yw rôl dŵr yn nhrosglwyddiad malaria?	Daearyddiaeth Afiechydon
Patrymau troseddau diod berthynol a phlismaona	Daearyddiaeth Troseddau
Amrywiadau yn ansawdd dŵr afon	Llygredd Atmosfferig a Llygredd Dŵr
Gwrthgyferbyniadau ym mhatrymau llystyfiant traethlinau	Ecosystemau ar Raddfa Fechan

Mae nifer o'r rhain yn golygu gwaith maes a chasglu data gwreiddiol, tra bo'r pwnc olaf yn ddibynnol ar ffynonellau eilaidd da.

CASGLU'R WYBODAETH – DULLIAU O GASGLU DATA

Ydych chi'n gwybod ble fyddwch chi'n casglu'r wybodaeth? Ydych chi'n gwybod pam eich bod yn casglu'r wybodaeth? Ar gyfer pa ran o'r pwnc y bwriadwyd yr wybodaeth? Allwch chi ddisgrifio eich dulliau o gasglu gwybodaeth a data, a chyfiawnhau eich defnydd o'r dulliau hyn?

CYFLWYNO'R WYBODAETH AC YSGRIFENNU'R ADRODDIAD

Unwaith y bydd gennych yr wybodaeth a'r data, bydd angen i chi brosesu a dehongli eich canfyddiadau. Os bydd nifer o'ch cydweithwyr yn gwneud pynciau cysylltiedig, dylech gyfarfod, un ai gyda neu heb eich tiwtor, er mwyn dweud wrth eich gilydd am eich canfyddiadau. Bydd fformat seminar o'r fath yn galluogi pawb i gael y ddealltwriaeth orau o'r ymchwil ac yn debygol o roi syniadau i chi nad oeddech wedi'u hystyried. Gallwch ddisgwyl i'r tiwtor eich arwain ond nid i roi'r holl atebion i chi.

Mae llunio graff neu fap neu brosesu'r wybodaeth yn ystadegol yn aml o fudd mawr. Mae map lleoliad anodedig ar gyfer yr astudiaeth yn hanfodol gan y bydd raid i chi ddweud yn eich ateb arholiad beth oedd eich gwaith ymchwil a ble wnaethoch chi'r gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer astudiaethau'n seiliedig ar waith maes sydd â data gwreiddiol. Mae gan y Geographical Association ddau destun perthnasol y dylech eu darllen: *Methods of Presenting Fieldwork Data a Methods of Analysis of Fieldwork Data*.

PA FATH O DDIAGRAMAU Y DYLECH EU HYSTYRIED?

Graffiau: Graffiau llinell, histogramau, siartiau cylch (ond peidiwch â gornwneud y rhain), graffiau gwasgariad, cromliniau amledd, hyd-doriadau a chroestoriadau, a graffiau trionglog.

Mapiau: Lleoliadol, Coropleth, Isopleth, Llif, Dosbarthaid, a mapiau cyhoeddedig perthnasol fel Cynlluniau Goad ar gyfer canolfannau siopa.

Ffotograffau: cyn belled â'u bod yn cael eu defnyddio. Gallant fod yn bopeth o ddelweddau lloeren, awyrluniau arosgo a fertigol, Google Earth a Google Street View i'ch ffotograffau eich hun. Mae Panoramio yn ffynhonnell arall o ddelweddau.

Technegau ystadegol: yn amlwg, gall data ystadegol a phrawf ystadegol fod yn addas ar gyfer eich astudiaeth. Gallwch ddefnyddio cymedr, canolrif, modd, gwyrriad safonol, graddio a phwysiad data, matricesau gwrthdaro, cyfernod cydberthyniad rhestrol Spearman, Chi² a dehongli dadansoddiadau deubegwn. Dylech ddeall y dulliau samplu a ddefnyddiwyd gennych i gael data.

DADANSODDI'R WYBODAETH

Unwaith y bo'r data wedi'i gasglu'n foddhaol, tynnwch gasgliadau o'r data ac aseswch ddilysrwydd y casgliadau. Mae'r cam gwerthuso hwn yn hanfodol gan y bydd cwestiynau'n cael eu gofyn am yr agwedd hon ar yr adroddiad.

YSGRIFENNU'R ADRODDIAD

Nid yw adroddiad ysgrifenedig yn orfodol, ond mae iddo'r fantais o dynnu at ei gilydd holl elfennau'r astudiaeth ymchwil. Trwy ysgrifennu adroddiad o tua 2,000 i 2,500 o eiriau, byddwch wedi cynhyrchu astudiaeth gyflawn, ac, yn fwy pwysig, dogfen adolygu. Yr adroddiad fydd ffynhonnell yr wybodaeth, dealltwriaeth, cymhwysiad a sgiliau a ddefnyddir gan yr arholwr i roi marc i chi (Tabl 2). Mae gwybod am eich astudiaeth yn bwysig iawn, tra bydd dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, materion a safbwyntiau daearyddol, mewn geiriau eraill, y gallu i berthnasu a chymhwyso'ch astudiaeth i faes ehangach daearyddiaeth, yn dod â chlod i chi. Mae'r sgiliau'n ffurfio trydedd elfen y marciau, ac yn cynnwys asesiad o'ch gallu i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a thechnegau a thechnolegau gwybodaeth modern, yn cynnwys systemau gwybodaeth ddaearyddol, lle bo'n addas, i ymchwilio i gwestiynau a materion, dod i gasgliadau a chyfathrebu eich canfyddiadau yn yr arholiad. Mae'r olaf o'r pwys mwyaf gan y disgwylir rhyddiaith ysgrifenedig rhesymegol, a bydd hynny'n haws i'w ysgrifennu os byddwch wedi cwblhau'r drefn ymholi ac wedi adolygu o'ch ymholiad eich hun.

PARATOI AR GYFER YR ARHOLIAD

Gadewch i'ch athro/athrawes asesu'ch gwaith gan y byddant yn gallu rhoi arweiniad i chi ar gyfer adolygu eich pwnc tuag at yr arholiad. Bydd y cwestiynau posibl ar y maes pwnc yn berthnasol i fethodoleg yr astudiaeth ymchwil (Rhan (a)) a chanfyddiadau eich ymchwil eich hun (Rhan (b)). Mae'r arholiad yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi cwblhau gwaith ymchwil unigol, a all fod wedi cynnwys gwaith maes. Mae'n rhagdybio eich bod yn gallu adnabod a dadansoddi'r cysylltiadau rhwng agweddau gwahanol daearyddiaeth, ynghyd â dadansoddi a syntheseiddio gwybodaeth ddaearyddol mewn amrywiaeth o ffurfiau ac o amrediad o ffynonellau. Yn bwysig iawn, bydd yr arholwr yn disgwyl i chi allu myfyrio'n feirniadol ar a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau pob cam o'ch ymholiad – y cynllunio, y casglu data, y canlyniadau a'r casgliadau, ac ailwerthusiad terfynol o'r pwnc.

	Gwybodaeth a Dealltwriaeth	Cymhwysiad	Sgiliau	Cyfanswm
Marc Cyfanswm G3 B	9	6	10	25
Rhan a	4	2	4	10
Rhan b	5	4	6	15

Tabl 3: Dyraniad y marciau ar gyfer dwy ran Adran B

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Er mwyn ennill marciau ar gyfer Gwybodaeth a Dealltwriaeth, sy'n golygu 50% o'r marciau yn Rhan (a) a 46% o'r marciau yn Rhan (b), dylech allu arddangos yn eich atebion eich bod:

- â dealltwriaeth o'r cysyniadau allweddol sy'n berthnasol i'ch Thema;
- yn gwybod ystyr y termau sy'n berthnasol i'ch astudiaeth;
- yn deall y prosesau sy'n gweithredu yn eich astudiaeth;
- yn gwybod am y gydberthynas rhwng ffactorau yn eich astudiaeth;
- yn gwybod ble gwnaethoch eich astudiaeth, am ba hyd a beth oedd y casgliadau y daethoch iddynt;
- yn deall y technegau casglu data a ddefnyddiwyd gennych, ynghyd â'r technegau a ddefnyddiwyd gennych i ddehongli'r wybodaeth;
- yn gwybod am astudiaethau eraill ar eich maes pwnc.

CYMHWYSIAD

Byddwch yn ennill clod os gallwch ddangos yn eich atebion eich bod yn gwybod sut i ddadansoddi, dehongli ac, yn fwy na dim, werthuso'r wybodaeth a ymchwiliwyd gennych. Bydd ystyriaeth feirniadol a gwerthusiad o botensial eich triniaeth o'r pwnc a chyfyngiadau eich dulliau yn dangos eich gallu i ymroi i'r pwnc. Wrth ymchwilio i'r themâu dynol, byddwch hefyd yn cael cyfle i ennill clod am ddeall safbwyntiau pobl.

SGILIAU

Bydd adran olaf y marciau yn canolbwyntio ar y sgiliau y byddwch yn eu harddangos yn eich atebion, ac, yn anad dim, y sgil o roi ymchwil ar waith. Bydd cyfathrebu canfyddiadau eich ymchwil mewn arholiad yn gofyn am y sgil o ysgrifennu rhyddiaith. Gall cwestiynau hefyd brofi eich dealltwriaeth o'r sgiliau casglu data a phrosesu a ddefnyddiwyd yn ystod eich ymchwiliad.

YN YR ARHOLIAD

Bydd y cwestiwn cyfan yn ADRAN B yn arholi'r un pynciau, waeth beth oedd y thema ymchwil astudiwyd gennych.

Bydd y cwestiynau yn **Rhan (a)** yn canolbwyntio ar agweddau ar y llwybr i ymholiad. Efallai y cewch eich holi am agweddau ar gasglu data: Trafodwch bwysigrwydd cymharol data gwreiddiol ac eilaidd mewn ymchwiliad i ddsbarthiad troseddau. (Bydd teitl unfath yn ymddangos ar gyfer pob thema ymchwil, pa un ai afiechyd dynol neu afonydd ydyw.) Gallai cwestiynau eraill ar gasglu data ganolbwyntio ar sut y bu i chi osgoi tuedd, dulliau o samplu neu werthusiad beirniadol o dechnegau casglu data.

Mae'n hanfodol eich bod yn datgan teitl eich astudiaeth ar ddechrau eich ateb i **Rhan (b)** y cwestiwn. Bydd y rhan hon bob amser yn gofyn i chi ysgrifennu am un agwedd ar eich astudiaeth unigol.

Dyma rai pynciau posibl y gellid eu gosod gan ddefnyddio camau'r Llwyr i Ymholiad ar dudalen 3. (Mae'r rhifau'n cyfateb i'r camau.)

- 1 I ba raddau y bu i'ch ymchwil i lenyddiaeth ddylanwadu ar y pwnc a ddewisoch ar gyfer eich astudiaeth bersonol?
- 2 Sut aethoch chi ati i gynllunio eich astudiaeth ymchwil bersonol?
- 2 Gwerthuswch yn feirniadol y cynllunio a wnaethoch ar gyfer eich astudiaeth ymchwil bersonol.
- 3 Gwerthuswch y ffynonellau gwreiddiol neu eilaidd a ddefnyddiwyd gennych yn eich ymchwil personol i ...
- 3 Disgrifiwch ac eglurwch y ffynonellau a ddefnyddiwyd gennych yn eich astudiaeth ymchwil.
- 4 Eglurwch sut yr aethoch ati i ddefnyddio'r data a gasglwyd gennych yn eich ymchwil personol i ymchwilio i'ch pwnc dewisedig.
- 4 Sut y bu i chi osgoi tuedd un ai yn eich casgliad chi o ddata gwreiddiol neu yn y ffynonellau eilaidd a ddefnyddiwyd gennych?
- 5 Sut aethoch chi ati i drefnu'r data a gasglwyd gennych i ateb amcanion eich pwnc?
- 5 Gwerthuswch yn feirniadol y casgliad data a ddefnyddiwyd gennych yn eich ymchwil personol.
- 6 Beth oedd y casgliadau y daethoch iddynt o'ch astudiaeth ymchwil?
- 6 Gwerthuswch y casgliadau y daethoch iddynt o'ch astudiaeth ymchwil – pa mor sicr allwch chi fod o'u dilysrwydd?
- 8 Oedd casgliadau eich astudiaeth ymchwil yn cyd-fynd â'r rhai yn y llynyddiaeth a ddarllensoch cyn i chi ddechrau? Os nad oeddent, pam?

Mae llawer o'r cwestiynau hyn yn **werthusol**, h.y. maent yn disgwyl i chi drafod agweddau da yn ogystal â rhai llai effeithiol eich gwaith.

COFIWCH

Bwriadwyd i Ymholiad Ymchwil fod yn ymarfer lle byddwch **yn dysgu drosoch eich hun dan arweiniad athro/athrawes**. Mae'n seiliedig ar y Llwyr i Ymholiad. Pa beth bynnag fyddwch yn ei wneud yn ystod yr astudiaeth ymchwil, mae'n bwysig eich bod yn cynnal gwerthusiad beirniadol o ddata ac unrhyw duedd posibl. Mae'r astudiaeth ar raddfa fechan, felly peidiwch â bod yn rhy uchelgeisiol. Ymgynghorwch â'ch athro/athrawes yn gyson a gofynnwch am arweiniad. Peidiwch â cheisio gwneud y gwaith trwy gopio oddi ar y we yn unig. Ni fydd hyn yn eich helpu i ateb y cwestiynau arholiad. Ni fydd eich athro/athrawes yn gwybod pa gwestiynau fydd yn cael eu gosod, felly peidiwch â dibynnu ar ei r(rh)agfynegiadau ef/hi ar gyfer eich gwaith adolygu.

- 1 Darllenwch ac ymchwiliwch i'r lenyddiaeth.
- 2 Penderfynwch ar bwnc ymchwil sydd un ai'n faes astudiaeth neu'n gwestiwn y dymunwch ei ateb.
- 3 Casglwch yr wybodaeth a'r data o ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd fydd yn eich galluogi i ateb y pwnc ymchwil a ddewiswyd gennych.

- 4 Bydd angen i chi ddeall beth mae'r wybodaeth a gasglwyd gennych yn ei ddweud yn hollol am y pwnc rydych yn ei ymchwilio. Pa mor gywir yw'r wybodaeth? A yw'n unochrog? Os felly, pam?
- 5 Trefnwch yr wybodaeth a'r data fel ei fod yn ateb eich amcanion ymchwil.
- 6 Ceisiwch ddod i gasgliadau o'ch canlyniadau y gallwch eu defnyddio pan fyddwch yn yr arholiad.
- 7 Gwerthuswch bob cam o'ch ymchwil fel y gallwch ateb cwestiynau am ddilyniant eich ymholiad yn yr arholiad.
- 8 Gwerthuswch eich tystiolaeth a'ch casgliadau mewn perthynas â'r hyn ddarllenasoch ar y cychwyn a'r hyn rydych wedi'i ganfod. Dylai hyn gynnwys newid y pwnc neu'r cwestiwn a ofynnwyd gennych fel y gall eraill gael gwell dealltwriaeth o'r pwnc yn y dyfodol.